

Hawliau plant



Mae gan bob plentyn hawliau dynol. Mae'r hawliau yna'n cael eu rhestru yn CCUHP. Mae'r hawliau yn CCUHP yn nodi beth sydd ei angen ar blant i ddatblygu, i gadw'n ddiogel ac i gael eu clywed.




Mae gan blant anabl yr un hawliau â phlant eraill. Mae'r holl hawliau yn CCUHP ar gyfer plant anabl.




Mae hawliau plant anabl hefyd yn cael eu hesbonio mewn Confensiwn arall. Yr enw ar y Confensiwn hwn yw CCUHPA. Mae'n cyflwyno beth sydd ei angen ar bobl anabl i gymryd rhan yn gyfartal a chael eu clywed.

Cyfraith newydd i addysg



Mae cyfraith newydd yng Nghymru ynghylch sut dylai plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, neu ADY, gael eu cefnogi.



Mae'r gyfraith hon yn dweud bod rhaid ystyried hawliau plant wrth gynllunio addysg i blant a phobl ifanc ag ADY.




Mae angen i'ch awdurdod lleol a'ch bwrdd iechyd feddwl am CCUHP a CCUHPA wrth gynllunio. Mae angen iddyn nhw wneud yn siŵr bod plant ag ADY yn eich ardal chi yn cael eu hawliau dynol.




Prosiect newydd



Sally yw Comisiynydd Plant Cymru. Ei gwaith hi yw gwneud yn siŵr bod plant yn cael eu hawliau.



Mae tîm Sally yn gweithio gyda thimau yng Nghaerdydd a Merthyr i sefydlu prosiect newydd.



Mae'r prosiect yma'n rhoi cynnig ar ffordd newydd o gynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY.



Os bydd y ffordd newydd o gynllunio yn gweithio'n dda, byddwn ni'n rhannu gwybodaeth amdani er mwyn gallu ei defnyddio ar draws Cymru.



Rydyn ni'n gobeithio bydd ein prosiect yn gwneud yn siŵr bod:

- Cynlluniau addysg lleol yn sicrhau bod plant yn cael eu hawliau
- Plant yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu eu doniau a'u sgiliau
- Plant yn cael lleisio barn ar y ffordd orau i gefnogi ADY
- Plant yn cael gwybodaeth glir am addysg yn eu hardal
- Plant yn cael cyfle i wneud newidiadau yn y dyfodol

Dywedwch chi wrthyn ni

Sut byddech chi'n hoffi bod yn rhan o'r prosiect?

Pa wybodaeth arall hoffech chi gael am y prosiect?

Beth yw'r peth pwysicaf i chi am y prosiect yma?

